

**Rhodri Glyn Thomas AC/AM**

**Comisiynydd y Cynulliad  
Assembly Commissioner**



Bethan Jenkins AC/AM  
Aelod Cynulliad Plaid Cymru - Gornllewin De Cymru  
75 Briton Ferry Road  
Melincryddan  
Neath  
SA11 1AR

12 Mehefin 2012

Annwyl Bethan

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Mai ynglŷn â chost cyfieithu trafodion y Cynulliad.

Gofynnwch a yw'n fwriad gan y Comisiwn i gynnal ymchwiliad mewnol i ddarganfod a oedd aelod o staff y Comisiwn wedi trosglwyddo gwybodaeth i'r Western Mail ar y mater hwn. Ni fyddwn yn cynnal ymchwiliad o'r fath. Nid oes sail i amau mai aelod o staff y Comisiwn a ddatgelodd y wybodaeth hon, ac, fel y gwelwch o'r llythyr hwn, mae modd i ffigur fel y ffigur a ddyfynnwyd yn y papur newydd ddeillio'n weddol rwydd o wybodaeth sydd eisoes yn eiddo i'r cyhoedd.

Pan benderfynodd y Comisiwn, yn gynharach eleni, i ail-ddechrau cyfieithu trafodion y Cyfarfod Llawn, roedd yr amcan gost flynyddol oddeutu £100,000. Roedd hyn yn seiliedig ar ddefnyddio cyfuniad o gyfieithu peiranyddol a gwaith prawffdarllen a golygu gan bobl. Mae'n bwysig cofio bod y gwir gostau sy'n deillio, yn adlewyrchu rheswm syml iawn, sef, nifer y geiriau Saesneg a gyfieithir, ac felly mae unrhyw ffigurau a nodwyd wedi'u seilio ar amcangyfrifon o swm y gwaith yn hytrach na rhagfynegiadau manwl gywir. O'n profiad hyd

Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1NA

Ffôn • Tel: 029 2089 8598

Ffacs • Fax: 029 2089 8117

Ebost • Email: [carys.evans@wales.gsi.gov.uk](mailto:carys.evans@wales.gsi.gov.uk)

Ysgrifenyddiaeth Comisiwn y Cynulliad/Assembly Commission Secretariat



yma, mae'r wir gost yn fwy na'r gost a ddisgwyliwyd. Pe bai'r costau a welsom ers mis Ionawr yn parhau drwy gydol y flwyddyn, byddai cyfanswm y gost flynyddol oddeutu £120-130,000.

Ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn yn cynhyrchu cofnod cwbl ddwyieithog o drafodion y Cyfarfod Llawn, ond nid o drafodion y pwyllgorau. Gall trafodion pwyllgorau ac is-bwyllgorau fod hyd at dair gwaith trafodion y Cyfarfod Llawn mewn wythnos arferol. I ddangos hyn, yn yr wythnos 14 - 18 Mai, amcangyfrifir bod oddeutu 240,000 o eiriau Saesneg wedi'u siarad mewn pwyllgorau (oddeutu 26.5 awr o drafodion pwyllgorau). Byddai cyfri'r gost ar y raddfa hon yn arwain at gost flynyddol o oddeutu £400,000. Mae'n bosibl bod y ffigurau a ddyfynnwyd yn y Western Mail a chan Peter Black, wedi deillio o gyfrifiad tebyg. Mae cost cyfieithu testun pur, yn hytrach na phrawfddarllen, yn uwch. Pe bai'r Comisiwn yn dewis talu am gyfieithu trafodion pwyllgorau o'r dechrau'n deg, yn hytrach na thrwy gyfuniad o gyfieithu peirianyddol a gwaith prawfddarllen, byddai amcan y gost flynyddol gyfatebol yn debygol o fod yn agosach at £600,000.

Fy nealltwriaeth i ynghylch argymhelliad y Pwyllgor yng Nghyfnod 1 yw ei fod am weld holl drafodion y Cynulliad yn cael eu cyfieithu'n llawn. Diffinnir hwn gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (s5) fel cyfeiriad at unrhyw drafodion y Cynulliad a'i bwyllgorau a'i is-bwyllgorau. Byddai cyfanswm cost flynyddol cyfieithu holl drafodion y Cynulliad yn llawn, gan ddefnyddio cyfieithu peirianyddol a gwaith prawfddarllen a golygu, felly, yn debygol o fod dros hanner miliwn o bunnoedd.

Hyd y gwn i, ni ofynnodd y Pwyllgor am amcan gost cyfieithu holl drafodion y Cynulliad cyn cynhyrchu ei adroddiad, a, gan nad oedd y gwaith hwn yn rhan o waith cynllunio cyllideb bresennol y Comisiwn, ni fuom yn gweithio ar amcangyfrifon o'r fath ein hunain. Byddai'r Comisiwn, wrth gwrs, yn barod i ddarparu unrhyw ffigurau a ofynna'r Pwyllgor amdanynt, ac 'rwy'n gobeithio y bydd rhoi'r wybodaeth hon yn eiddo i'r cyhoedd yn cyfnod hwn yn llywio'r ddadl ddilynol wrth i'r Bil fynd ar ei hynt.

Rwy'n copio'r llythyr hwn i Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad a'r Comisiynwyr eraill.

Yr eiddoch

Rhodri Glyn Thomas AC/AM